# Y PAPUR GWYRDD

Llais Cymraeg yr ymgyrch byd-eang i fynnu parch i'r Ddaear

# Al Gore: Colli'r iâ - a'n byd mewn perygl

- Glo'n bygwth breuddwyd ein 'Cymoedd Silicon' ?
- Prinder bwyd — prinder amser
- Cwmnïau'n ymateb i'r her werdd
- Agro-fusnes yn sathru'n ffermwyr
- Gwir gost pwerdai niwclear
- Gwersyll Hinsawdd: cyfle Cymru

Y PAPUR GWYRDD
Rhif 12
Mehefin / Gorffennaf 2009
PRIS: £1
ISSN 1755-3504

**Y PAPUR GWYRDD:** *Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i barchu'r Ddaear*

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)
Argreffir Y Papur Gwyrdd gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu gydag inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen.

# TLODI MUDIAD Y DDAEAR

**PEIDIWCH â meddwl mai ffotograffydd o un o'r asiantaethau mawr gymerodd y llun trawiadol sydd ar glawr y rhifyn hwn o'r Papur Gwyrdd.**

Camera cyffredin, a dyn cyffredin — sef y golygydd — dynnodd y llun o'r awyr sy'n dangos y bylchau a'r craciau anferth sy'n ymddangos yn iâ ymylon Pegwn y Gogledd.

Hedfan i'r Unol Daleithiau oeddem (ie, yn ddinistriol, ysywaeth) i ymweld â theulu Charlotte pan ddaeth y golygfeydd rhyfeddol i'r golwg odditanom fel symbol o'r rhybuddion gwyddonol oedd i'w lleisio gan Al Gore ychydig ddyddiau'n ddiweddarach (tudalen 3).

Toddiant iâ'r Arctig a'r Antarctig yw'r arwyddion mwya' clir bod Cynhesu Byd-eang eisoes yn peryglu pawb ohonom ar y blaned hon. Mae'r broses, bellach, yn anwadadwy.

Pe bai'r Wasg dorfol yn gyfrifol, byddent yn rhoi o leia' cymaint o sylw i'r pwnc hwn ag a wnaed yn ddiweddar i ymddygiad gwarthus cymaint o Aelodau Seneddol San Steffan, i dwyll byd-eang yr economi gyfalafol — ac, wrth gwrs, i chwaraeon. Ond mae'r cyfryngau'n osgoi cyflwr y Ddaear bron yn llwyr.

Y canlyniad yw bod cyfraniadau at y mudiadau amgylcheddol tlawd sy'n lleisio'r bygythiad bellach wedi disgyn nes bod rhaid iddynt ddi-swyddo staff — fel gyda'r WWF yng Nghymru.

**O ganlyniad, mae'r cwmniau pwerus sy'n llygadu elw uwch popeth arall yn parhau i ddinistrio'r Ddaear, a'n dyfodol.**

# CYNNWYS

3 Chwalfa'r Ddaear heb iâ — Al Gore ► *Paratoi ar gyfer Gwersyll Hinsawdd Cymru*


4 Glo'n peryglu'r Cymoedd Silicon Carwyn Jones?



5 Agro-busnes yn sathru ar ffermydd Cymru a'r Ddaear ► *Twyll y corfforaethau wrth wadu newid hinsawdd*

6 Cofio Silas — dyn y sêr

7 Yr her i fusnesau Cymru — *Gwenith Hughes*




8 Gwir gost pwerdai niwclear

9 Wynebu hunllef prinder bwyd — *Charlotte Davies*



10 Daear-iadur: dathlu'r Ddaear



11 Gwanwyn Gwyrdd arloesol Plaid Cymru ► *a chlod i ddanadl poethion*

*ENNILL A CHOLLI YN YMGYRCH Y DDAEAR tud 6*

**Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post**

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………….

CYFEIRIAD: ……………………………………………….

…………………………………… Côd Post……………..

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(£6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau ychwanegol i gynorthwyo gyda chostau postio).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD

# Cartrefi, cymunedau — y dewis naturiol

**MOR wahanol i orthodocsi economaidd ddinistriol y corfforaethau cyfalafol a'u pwyslais ar elw i gyfranddalwyr yw'r syniadau sy'n cael eu cynnig yn** *Low Impact Development: The Future in our Hands,* **llyfr newydd gan Dr Larch Maxey, o Benrhyn Gŵyr, a Jenny Pickerill.**

Mae Larch yn ddysgwr Cymraeg brwd, yn ddarlithydd mewn cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn un o brif ysgogwyr y cynllun i greu cymuned effaith-isel Lammas yn Sir Benfro.

Yn ôl *Autonomous Geographies.org,* syniad yw Datblygu Effaith Isel sy'n eithriadol o berthnasol i'n hoes ni: "Mae Datblygu Effaith Isel yn ffurf radical o greu tai a chymunedau cynaliadwy sy'n cyd-fynd â'r cynefin naturiol."

Mae'r llyfr yn cynnig



Tŷ Simon Dale

braslun o syniadau Datblygiad Effaith Isel a'r hyn maen nhw'n cynnig i fyd sydd dan warchae gan ddatblygiadau diwydiannol hollol ddinistriol.

Mae Larch a Jenny Pickerill wedi cynnwys straeon i'n hysbrydoli gan bobl sydd eisoes yn gweithredu syniadau Datblygu Effaith Isel — fel Simon Dale sydd wedi adeiladu tŷ effaith isel rhywle yng Nghymru (llun uchod).

**► Copiau o Ganolfan Amgylchedd Abertawe ac o'r wê. Am fwy o wybodaeth:** l.maxey@swansea.ac.uk

**Rhybudd Al Gore i Gyngres America … a'r byd**

# Toddi'r iâ yn fygythiad i filiynau led-led y Ddaear

**RHODDWYD rhybudd difrifol gan y cyn-Is Arlywydd Al Gore ar bwnc y bygythiad i'r Ddaear i aelodau Cyngres America ar 24 Ebrill wrth iddynt ystyried mesur amgylcheddol newydd.**

**Roedd yr hyn ddatgelodd am doddiant iâ yr Arctig a'r Antarctig yn ddigon i sobri pawb a'n procio i wasgu ar wleidyddion a byd busnes i brysuro i weithredu mesurau torri carbon radical ar raddfa fyd-eang:**

"Mae'r Arctig yn twymo ar gyflymder heb ei debyg … Dywed ymchwilwyr Ysgol Ôlraddedigion Llynges [yr Unol Daleithiau] wrthym y gall y cyfan o orchudd iâ pegwn yr Arctig ddiflannu'n llwyr dros yr haf mewn cyn lleied â phum mlynedd os na wneir rhywbeth i leihau allyriadau llygredd nwy tŷ gwydr …

**HAFAU HEB IÂ YMHEN 5 MLWYDD?**

"Toddodd bron i hanner yr iâ eisoes yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Wrth ei ddadorchuddio, mae'r cefnfor tywyll yn cadw 90 y cant o wres yr haul a fu gynt yn cael ei adlewyrchu gan yr iâ. O ganlyniad, mae'r cyflenwad anferth o garbon sydd wedi'i rewi yn y *permafrost* oddi amgylch Môr yr Arctig yn dechrau cael ei ryddhau fel nwy methan wrth i'r *tundra* rhewedig doddi, gan fygwth dyblu llygredd cynhesu byd-eang yn yr atmosffer.

## Rhaid gweithredu ar frys i atal toddi iâ pegynnau'r Ddaear os ydym am ffrwyno cynhesu byd-eang a chodiad enbyd lefel y moroedd, medd cyn Is-Arlywydd America

*"Cyrhaeddodd toddiant gorchudd iâ Yr Ynys Las record newydd oedd yn 60 y cant anhygoel yn uwch na ffigwr uchaf blaenorol 1998. Profodd yr 11 haf mwya' diweddar doddiant uwch na'r cyfartaledd dros y cyfnod amser 35 mlynedd 1973 – 2007.*

"Mae daeargrynfeydd rhewlifol wedi bod yn cynyddu wrth i ddŵr y toddiant gyrraedd trwy'r iâ at y graig waelodol odditano. Pe doddai haenen iâ Yr Ynys Las, gan dorri'n ddarnau a llithro i'r Môr Iwerydd Gogleddol, byddai lefel y môr yn codi bron i 20 troedfedd.



**Llun a dynnwyd i'r Papur Gwyrdd ar 21 Ebrill o awyren uwchben y rhew-foroedd rhwng Yr Ynys Las a Newfoundland — a'r toriadau yn yr iâ yn eglur.**

"Rydym yn gwybod bod Penrhyn yr Antarctig yn twymo tua thair neu bedair gwaith yn gyflymach na'r cyfartaledd byd-eang. Dyna pam mae Haenen Iâ Larsen B … eisoes wedi chwalu. Chwalodd sawl haenen iâ arall yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Nawr, mae haenen iâ fawr arall, Haenen Wilkins – sydd tua maint Gogledd Iwerddon – yn dechrau dadfeilio o flaen ein llygaid.

**AM BOB MEDR — 100 MILIWN YN FFOI**

"Cadarnhaodd astudiaeth ddiweddar yng nghylchgrawn **Science** fod y cyfan o orchudd iâ Gorllewin yr Arctig yn cynhesu. Mae gwyddonwyr wedi dweud wrthym pe byddai'n chwalu a llithro i'r môr, byddwn yn profi codiad arall o 20 troedfedd yn lefel y môr ledled y byd.

<u>"Mae pob codiad o fedr yn lefel y môr yn arwain at 100 miliwn o ffoaduriaid hinsawdd</u>." □

## GWERSYLL HINSAWDD CYMRAEG?

**MAE mudiad protest amgylcheddol yn apelio ar Gymry Cymraeg ifainc (a hŷn!) i ymuno â Gwersyll Hinsawdd ym Merthyr Tudful o 13 – 16 Awst.**

Cafwyd apêl arbennig i Gymry Cymraeg ddod yn rhan o'r gwersyll fydd yn tynnu sylw at y difrod sy'n cael ei achosi i'r Ddaear gan safle glo brig enfawr Ffos y fran.

Meddai Gwyfyn, sy'n llefarydd ar ran mudiad Climate Chaos Cymru, ac sy'n ddysgwr Cymraeg brwd, "Rydyn ni'n ceisio dechrau mudiad newydd yng Nghymru, ond mae gen i ofn ein bod ni'n 'ghetto' Saesneg ar hyn o bryd.

"Rydym yn edrych am bobl sy'n siarad Cymraeg i helpu gyda'r trefniadau ar gyfer y gwersyll."

Bu mudiad Climate Chaos yn ganolog yn y protestiadau heddychlon yn Llundain a ddioddefodd o dactegau ymosodol yr heddlu ar adeg cyfarfod y G20 ym mis Ebrill, tactegau sy'n destun ymchwiliad.

► **Am fwy o wybodaeth a sut i ymuno, ewch i dudalen 10.**

Mae cred gynyddol ymysg gwyddonwyr, a minnau yn eu plith, ei bod bellach yn rhy hwyr i atal newidiadau sylweddol yn hinsawdd y blaned. Ond nid yw hyn yn esgus i laesu dwylo yn ein hymdrechion i ddad-wneud drwg y ganrif a hanner ddiwethaf.

**Yr Athro Deri Tomos, Adran y Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Bangor (Barn, Mai 2009)**

GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES



# Hunllef glo brwnt yn bygwth breuddwyd 'Cymoedd Silicon' Carwyn

**MAE breuddwyd Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, Carwyn Jones AC, i greu 'Cymoedd Silicon Gwyrdd' yn cael ei bygwth gan gwmniau sydd am ehangu safleoedd glo brig ac ail-ddatblygu pyllau glo yn neheudir Cymru.**

Bellach mae'n amlwg ei bod hi'n frwydr rhwng yr hen economi ddinistriol a gynrychiolir gan y corfforaethau glo pwerus a'u cyfeillion a'r gobeithion am economi werdd newydd yng Nghymoedd y De a fynegir gan Mr Jones.



Yn ôl Mr Jones mewn araith yng Nghaerffili, dylai Cymoedd y de-ddwyrain gael eu hail-eni fel canolfannau Technoleg Werdd lle byddai buddsoddiadau yn gallu creu "dyfodol di-garbon gyda swyddi newydd gwyrdd."



**Carwyn Jones AC: Cymoedd Silicon yw ein gobaith.**
***Llun: Dogfael***

Gwych – mewn egwyddor.

Ond y gwir yw bod syniadau Mr Jones yn cael eu tanseilio'n llwyr gan y realiti bod cwmniau tanwydd ffosil yn prysur droi'r cloc nôl i ddyddiau brwnt y diwydiant glo achosodd gymaint o ddifrod i'r Cymoedd hardd a chymaint o niwed i'r Ddaear trwy eu hallyriadau $CO_2$.

"Gadewch i ni gynllunio i wneud y Cymoedd yn ardal ddigidol," meddai Mr Jones, "Gadewch i ni feddwl amdanynt fel y Cymoedd Silicon."

Gyda'r Cymoedd bellach wedi adennill cymaint o'u glendid a'u prydferthwch, roedden nhw'n dechrau edrych fel llefydd addas ar gyfer breuddwydion felly. Ond nid dyna fel mae'r cwmniau glo yn ei gweld hi. Eisiau rhwygo a darnio'r Cymoedd eto maen nhw er mwyn ennill elw tymor byr i'w cyfranddalwyr:

*Yn Ffos y fran, Merthyr Tudful, mae cwmni Miller Argent yn creu safle glo brig mwyaf Ewrop i allyru 30 miliwn tunnell o $C0_2$ dros 17 mlynedd o dwll 600 troedfedd o ddyfnder yn y gweundiroedd uwch y dre.*

*Ym mlaenau Cwm Nedd, mae Celtic Energy wedi taflu gwrthwynebiad pobl leol i'r neilltu: dim ond rhwng 1994 a 2006 roedden nhw i fod i weithio safle hyll Selar, ond cafodd hynny ei ymestyn i 2010, a nawr maen nhw'n gwthio i greu safle newydd ar gyrrion pentre Glyn Nedd i barhau tan 2013 (a safleoedd Nant Helen a Margam hefyd).*

*Ar y bryniau rhwng Cwmllynfell a Thai'r Gwaith, Dyffryn Aman, mae safle glo brig East Pit wedi ehangu fel y bu raid ail-agor rheilffordd i gario'r glo ychwanegol (Celtic Energy eto).*

*Yng Nghwm Nedd, mae cwmni Energybuild - wedi'i reoli gan gorfforaethau byd-eang Cambrian Mining plc a Coal International - yn ail-ddatblygu Glofa Aberpergwm, ac Unity plc (sef Chian Resources o Awstralia a Horizon Mining) yn ail-agor glofa yng Nghwmgwrach.*

*Ac ar dir hen Bwll y Twr yn Hirwaun, mae Tyron O'Sullivan yn gobeithio agor safle glo brig newydd sbon ei hun.*

**►Gofynnwch i gwmniau technoleg gwyrdd os hoffent fod ynghanol mwy o ddatblygiadau glo fel yna!**

**►Gofynnwch i'r twristiaid y mae ein hawdurdodau yn ceisio'u denu a hoffent ymweld â Chymoedd Glo!**

Ystyrir Carwyn Jones gan rai fel darpar-Brif Weinidog Cymru. Er mwyn gwireddu'i freuddwyd o Gymoedd Silicon Gwyrdd, fe'i gwahoddwn i ddangos ei allu fel arweinydd i berswadio Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i atal mwy o ddatblygu gan gwmniau glo



yng Nghymru. Heb hynny, nid breuddwyd fydd gennym ond hunllef.

Glo yw'r tanwydd bryntaf oll ac mae'r Ddaear yn gwegian dan ei effaith. Nid oes technoleg mewn bodolaeth i'w ddefnyddio'n lân – er holl honiadau slic y diwydiant a'r pwysau am gymorth cyhoeddus iddo yn lle i ynni adnewyddol. Os am Ddaear lân a Chymoedd Silicon, rhaid cadw'r glo dan ddaear.

## Y Green Institute: llais call i arwain byd sy'n gwegian ...

RYDYM yn byw ynghanol amseroedd rhyfeddol, *'spectacular'* yw'r gair Saesneg priodol i'w disgrifio. O ran San Steffan, mae parodrwydd cymaint o Aelodau Seneddol i elwa'n bersonol o'u treuliau yn arwain at ddiwygio hanesyddol. O ganlyniad i'r un ysbryd trachwantus, mae seiliau'r drefn gyfalafol fyd-eang wedi cael eu siglo gan chwalu swyddi, darnio cynilion personol a gwthio gwledydd at fethdaliad. Ac o ran y Ddaear ei hun, rydym yn cerdded fel mewn trymgwsg, er holl rhybuddion gwyddonwyr, at y dibyn.

Gan edrych yn benodol ar yr argyfwng economaidd, yr hyn sy'n siomi rhywun yw amharodrwydd arweinwyr gwleidyddol a busnes i ddechrau addasu at yr amgylchiadau newydd sy'n bodoli.

Diolch, felly, am y Green Institute sy'n datgan:

*Rydym yn addo diwygio economeg er mwyn atal tlodi, ac nid ei greu, i gyfoethogi bioamrywiaeth ac nid ei ddinistrio, ac i weithio o fewn galluoedd y blaned ac nid gorddefnyddio ac ysbeilio'i hadnoddau. (www.greeneconomics.org.uk)*

Pryd welsoch chi unrhyw sylw mor gall â hynny, er enghraifft, gan y pundits yn Business Pages ein papurau dyddiol? ☐



## Awstralia'n troi at yr haul ...

YN FUAN wedi cael eu beirniadu'n hallt am ddatgan bod torri allyriadau $CO_2$ yn ail bellach i adfer economi'r wlad, cyhoeddodd Llywodraeth Awstralia gynlluniau i godi pwerdy haul mwya'r byd.

Dywedodd y Prif Weinidog, Kevin Rudd, y byddai $1.4b o gymorth gwladol yn cael ei roi i'r pwerdy fydd yn cynhyrchu 1000 megawatts o drydan – sef tua thair gwaith yn fwy na'r orsaf haul fwya' ar hyn o bryd yng Nghaliffornia.

Glo yw prif danwydd ynni Awstralia, sydd hefyd yn ffurfio prif elfen ei hallforion. O ganlyniad, yn ôl y pen, Awstralia sydd â'r allyriadau $CO_2$ niweidiol mwyaf trwy'r byd. Croeso i'r goleuni!

> O ddifrif, ydyn ni eisiau treulio cymaint o'n hamser gwerthfawr yn rhedeg ar ôl pethau a stwff sydd, wrth eu cynhyrchu a'u dosbarthu, yn niweidio'r cynefin rydyn ni'n dibynnu arno am ein hiechyd, ein hapusrwydd a'n diogelwch?
>
> **Yr Athro Dan Gilbert, Prifysgol Havard**

# Herio'r gadwyn fwyd sy'n achosi newid hinsawdd

**MAE ffermydd bychain Cymru yn talu'r pris am y system amaeth-ffatri agro-fusnes byd-eang sy'n dinistrio fforestydd y trofannau gan hybu newid hinsawdd.**

Dyma ganlyniad astudiaeth newydd **'Bwydo'r Bwystfil'** sy'n dangos bod arian y Gymuned Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio i gynnal ffermydd ffatri.

Galwad gynyddol y ffatrioedd amaeth hyn am fwydydd anifail sy'n achosi clirio fforestydd i dyfu grawn yn Ne America.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn galw am weithredu brys i gynnal ffermwyr Cymru fel rhan o ymgyrch i ddod â'r gadwyn fwydydd anifail niweidiol hyn i ben.

Mae'r ymgyrch hefyd yn galw ar Lywodraethau San Steffan a Brwsel i ymyrryd er mwyn atal y ffordd mae corfforaethau – yn arbennig yr archfarchnadoedd – yn hybu ffermio diwydiannol trwy'r prisoedd isel a delir i ffermwyr bychain.



**Haf Elgar: Ein trethi'n cynnal ffatrioedd ffermio dinistriol.**

*Meddai ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru, Haf Elgar, "Mae Cymru yn wlad ddelfrydol i arwain ymgyrch fel hon i gynhyrchu bwydydd anifail lleol, o ansawdd uchel, a fydd hefyd yn gyfeillgar i'r blaned.*

"Mae ein ffermydd bychain yn colli allan i ffermio a yrrir gan y corfforaethau amaeth mawr. Nhw yw linc marwol y gadwyn gudd sy'n cysylltu'r bwyd ar ein platiau i ddinistr y coedwigoedd trofannol sy'n hybu newid hinsawdd.

"Bydd teuluoedd yng Nghymru yn synnu i wybod sut mae eu trethi yn cael eu defnyddio i gynnal diwydiant sydd nid yn unig yn achosi mwy o newid hinsawdd na'r holl awyrennau, ceir a loriau sydd ar y blaned, ond sydd hefyd ag effaith mor niweidiol ar ffermwyr Cymreig." ☐

## GWADU NEWID HINSAWDD ...

# CELWYDD Y CWMNIAU

**MAE'R *New York Times* wedi datgelu bod y cwmniau sefydlodd y *Global Climate Coalition* i danseilio rhybuddion amgylcheddol mudiadau Gwyrdd dros y blynyddoedd yn gwybod bod eu hymgyrch yn gelwyddog.**

Mewn adroddiad yn y ***NYT*** ar 23 Ebrill, datgelodd y newyddiadurwr Andrew Revkin fod y cwmniau wedi talu am "ymgyrch lobïo a chysylltiadau cyhoeddus ymosodol yn erbyn y syniad bod allyriadau nwyon tŷ-gwydr yn gallu achosi cynhesu byd-eang" er eu bod wedi derbyn gwybodaeth wyddonol bod honni hyn yn gelwyddog.

Meddai Revkin, "Mae dogfen a gyflwynwyd mewn achos llys ffederal yn dangos hyd yn oed wrth i'r glymblaid weithio i newid barn, roedd ei arbenigwyr gwyddonol a thechnegol yn eu cynghori nad oedd modd gwadu'r wyddoniaeth bod nwyon tŷ gwydr yn achosi cynhesu byd-eang."

**Dywedodd y gwyddonwyr mewn adroddiad mewnol i'r cwmniau ym 1995,** "Mae sail wyddonol yr Effaith Tŷ Gwydr, ynghyd ag effaith debygol allyriadau dynol o nwyon tŷ gwydr fel $CO_2$ ar yr hinsawdd, wedi'u derbyn ers tro ac nid oes modd eu gwadu."

Canlyniad yr ymgyrch gelwyddog oedd drysu'r cyfryngau a'r cyhoedd gan arafu ymdrechion llywodraethau a chymunedau i ddelio â Newid Hinsawdd am ddegawd a mwy.

Sefydlwyd clymblaid y *Global Climate Coalition* ym 1989 a pheidiodd â gweithredu yn 2002, ond roedd y drwg wedi'i wneud.

Mae'r amheuon a grewyd gan y corfforaethau pwerus yn parhau ym meddyliau llawer — er ein bod bellach mor agos at bwynt di-droi 'nôl yn y frwydr i reoli Newid Hinsawdd a chreu perthynas cynaliadwy newydd rhwng pobl a'r Ddaear.

■ Yn arwain y cwmniau oedd yn ariannu'r ymgyrch gelwyddog oedd:

**Exxon/Esso, Ford, Shell, Texaco, BP, General Motors a Daimler/Chrysler.**

► I Wefanwyr, mae rhestr llawn o'r cwmniau euog ar: http://noimpactman.

## Gardd Michelle yn achosi dig

MAE corfforaethau agro-fusnes America wedi cael eu digio gan Michelle Obama – am ei bod hi wedi troi rhan o lawnt y Tŷ Gwyn yn ardd 'organig' i godi llysiau a ffrwythau i'r teulu.

Mae'r cwmniau hyn - sydd wedi bod yn arllwys cemegau ar draws y byd ers degawdau - wedi ysgrifennu ati i fynegi eu pryder ei bod yn gosod 'esiampl ddrwg' i deuluoedd y wlad!

Honna llythyr grŵp sy'n cynnwys Monsanto, Dow AgroSciences a DuPont Crop Protection – y byddai'r ardd yn codi amheuon am 'arddio confensiynol' – sef y ffatrioedd amaethu a'u gwrteithi, plaladdwyr, a chwynladdwyr artiffisial.

Cadarnhaodd llefarydd ar ran y Tŷ Gwyn na fydd yr ardd yn defnyddio cemegau.

Ymlaen Michelle!

# Goleuni yn y tywyllwch?

**YDY'R rhan fwya' ohonom yn methu credu bellach ein bod yn byw ar blaned?**

Ac ai absenoldeb y sêr o'n bywydau sy'n gyfrifol am hyn?

Mae Cymdeithas y Wybren Dywyll Ryngwladol yn credu bod yr holl oleuadau sy'n fflachio o'n cwmpas yn ystod y nos yn ein gadael yn y tywyllwch mewn gwirionedd.

Dyna pam maen nhw'n ymgyrchu o blaid rheoli a lleihau 'llygredd golau' er mwyn adfer tywyllwch y nos yn ôl i'n bywydau.

Mae gwir angen y tywyllwch arnom, meddai'r llenor Verlyn Klinkenborg: "Mae tywyllwch mor hanfodol i'n lles biolegol, i'n clociau mewnol, ag ydyw goleuni" (*Our Vanishing Night, National Geographic, Tachwedd 2008*).

Mae ein methiant i weld sêr oedd mor gyfarwydd i'n hynafiaid efallai'n golygu nad ydym yn gweld y Ddaear fel rhan o batrwm y Cread.

Ai dyna'r rheswm pam mae cymaint ohonom yn ei chael hi'n anodd i weld pa mor bwysig ydyw diogelu systemau naturiol y Ddaear – sef y systemau sy'n ein cynnal?

Ond, yn eironig ddigon, yn ystod Blwyddyn Ryngwladol Seryddiaeth, mae'r duwch nosweithiol wedi dechrau codi rhyw ychydig. A'r argyfwng economaidd sy'n gyfrifol am hyn.

**BLWYDDYN SERYDDIAETH**

I arbed costau, mae nifer o gynghorau – gyda chyngor sir Powys ar y blaen – wedi dechrau diffodd eu goleuadau stryd a swyddfa fel nad ydynt yn disgleirio yn yr oriau mân er budd fawr neb ond cathod y plwy'.

O ganlyniad mae lefelau llygredd golau yn dechrau gostwng rhyw ychydig a phlanedau eraill a sêr y Greadigaeth yn llwyddo denu'n sylw.

Felly, pob clod i gynghorau – a phob sefydliad arall — sy'n diffodd eu goleuadau.

O ran pwysigrwydd y Ddaear, mae mwy o obaith i ni weld y goleuni yn y tywyllwch.

# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

**Pigion amrywiol 2 fis**

## CYFYNGU $CO_2$

CYHOEDDODD Llywodraeth San Steffan na chaiff unrhyw bwerdy glo ei godi yng ngwledydd Prydain o hyn ymlaen heb systemau cadw a chloddio $CO_2$. Dywedodd y gweinidog Ed Miliband y bydd rhaid i bob pwerdy glo newydd atal o leiaf 25% o'u carbon ar unwaith, a 100% erbyn 2025. Roedd Miliband wedi derbyn dros 85,000 o negeseuon gan gefnogwyr Stop Climate Chaos.

## Y BLANED YN 2ail!

WRTH i lywodraethau a byd busnes ddefnyddio'r argyfwng ariannol i honni bod yr economi yn bwysicach na dyfodol y blaned, disgynnodd gyfraniadau i fudiadau amgylcheddol. Ymysg y rhai sy'n ddioddef yw WWF, gan gynnwys swyddfa Cymru lle mae'r pennaeth, Morgan Parry, wedi gadael wedi naw mlynedd.

## OBAMA'N SIOMI?

MAE siom gynyddol ymysg mudiadau amgylcheddol yr Unol Daleithiau gyda gweinyddiaeth Barack Obama. Eu hofn yw bod cwmniau trafnidiaeth a glo yn llwyddo i bwyso ar Steven Chu – Ysgrifennydd Ynni Mr Obama – i wanhau addewidion i gwtogi'n sylweddol a chyflym ar allyriadau niweidiol $CO_2$. Mae'r Athro Chu yn dweud bod rhaid bod yn bragmataidd.

## TWRBEINI'R ALBAN

WRTH agor fferm wynt mwyaf ar-dir Ewrop ger Glasgow, cyhoeddodd prif weinidog yr Alban, Alex Salmond, fod ei Lywodraeth SNP yn benderfynnol o atal allyriadau niweidiol $CO_2$ gan hybu ynni adnewyddol. Mae twrbeini 322MW Whitelee eisoes yn cwrdd ag anghenion Glasgow ond cyhoeddodd Mr Salmon gynllun i'w ehangu o drydedd rhan. Nod yr Alban yw 50% o drydan yn adnewyddol erbyn 2020, ac mae eisoes wedi cyrraedd 31%.

## DYDD DI-GIG

EWCH heb gig ar Ddydd Iau – dyna anogaeth newydd cyngor dinas Ghent yng Ngwlad Belg. Gan annog dinasyddion, tai bwyta ac ysgolion i fwyta dim ond llysiau ar un o ddyddiau'r wythnos, mae'r cyngor yn gobeithio lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr o 18% ar y diwrnod hwnnw.

## CYMRU'N LLUSGO?

HONNODD Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru nad yw Llywodraeth Cymru'n gwneud digon i gyflawni llawn botensial ynni adnewyddol yng Nghymru. Dywed aelodau ei bod yn hanfodol i Gymru gael gwared â'i henw drwg fel y wlad sy'n cynhyrchu mwy o allyriadau carbon nag unrhyw un o wledydd eraill y DU. Meddai Mick Bates AC, Cadeirydd y Pwyllgor."Mae ynni yn ganolog i bopeth a wnawn ond mae'r ffyrdd traddodiadol o gynhyrchu ynni drwy ddefnyddio tanwydd fel glo, nwy ac olew yn golygu mai dyma'r ffynhonnell unigol fwyaf o allyriadau carbon."

## CYMRU'N ARWAIN?

Ond, yng Ngŵyl Lenyddol y Gelligandryll, cyhoeddodd Jane Davidson fod Cymru'n arwain y DU wrth anelu at gymdeithas fydd yn gynaliadwy yn amgylcheddol. Er bod adroddiad gan Sefydliad Stockholm wedi nodi bod Cymru, fel gweddill Ewrop, yn llyncu gwerth 3 planed o adnoddau, mynnodd y Gweinidog Amgylcheddol fod polisiau Llywodraeth Cymru yn mynd i'r cyfeiriad iawn ac y bydd polisiau cryfach eto yn y dyfodol.

## 'NA!' I FAES AWYR

GWRTHODWYD cynlluniau i ehangu Maes Awyr Leeds Bradford. Yn dilyn ymgyrch leol gref o wrthwynebiad, dywedodd cynghorwyr fod angen ail ystyried yr effaith ar newid hinsawdd a thrafnidiaeth.

## AMHEUON HAFREN

BEIRNIADWYD yr adroddiad a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth San Steffan i ddewis rhestr fer prosiectau creu ynni adnewyddol yn yr Hafren. Yn ôl nifer o fudiadau amgylcheddol , doedd yr adroddiad ddim wedi ystyried gwir gostau na niwed amgylcheddol Morglawdd Caerdydd Weston nac wedi cyflwyno cymhariaeth deg gyda chynlluniau eraill.

**►Cyhoeddodd y Blaid Ryddfrydol Ddemocratiaid eu bod yn gwrthwynebu'r morglawdd.**

'Cofiwch y pethau bychain!' - neges Dewi'n dal yn bwysig ...

# Cynnal y Ddaear yn allwedd i lwyddiant busnesau Cymru



**MAE rôl byd busnes yn un hanfodol ar gyfer sicrhau bod Cymru yn datblygu'n gynaliadwy, ac yn hynod berthnasol yn ystod y wasgfa economaidd bresennol.**

Nododd sefydliad Envirowise (5/11/08) y bydd busnesau sydd wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i leihau eu heffeithiau amgylcheddol a lleihau costau yn fwy parod i wynebu'r her o oroesi a ffynnu yn ystod y crebachiad presennol.

Er bod yr amgylchedd yn un elfen bwysig o ddatblygu'n gynaliadwy, rhaid cofio bod agweddau economaidd a chymdeithasol busnes yr un mor bwysig, a hefyd sut mae'r tair elfen yn cael eu hintegreiddio i holl weithgareddau'r busnes.

**Cwsmeriaid ar draws y byd yn fwy ymwybodol o faterion moesegol wrth brynu nwyddau**

Ariannwyd prosiect Synnwyr Busnes yn 2006 gan Brifysgol Bangor, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop i ddatblygu prawf iechyd cynaliadwyedd ar gyfer busnesau.

Yn ystod y broses byddwn yn edrych ar ystod eang o agweddau gan gynnwys elfennau economaidd fel cynllun busnes tymor hir, marchnata ac ymchwil i dueddiadau cwsmeriaid gyda pherchennog neu brif weithredwr y busnes.

Holwn am eu hagweddau at elfennau cymdeithasol fel hawliau gweithwyr, defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnes a moeseg penderfyniadau prynu.

Yn olaf, cawn olwg ar effaith y busnes ar yr amgylchedd, defnydd effeithiol o adnoddau naturiol, deunyddiau cynaliadwy, rheoli bioamrywiaeth, lleihau gwastraff ac ailgylchu, defnydd egni ac ati.

Yn sgil y prawf iechyd, bydd y busnes yn derbyn adroddiad manwl sy'n nodi pa agweddau o'r busnes sydd angen rhagor o sylw. Ond mae hefyd yn tanlinellu arferion da.

Mae'n fanteisiol i fusnesau integreiddio cynaliadwyedd i graidd y busnes. Yn ddiweddar dangosodd Cyngor Byd-Eang ar Ddatblygiad Cynaliadwy i Fusnes fod cwsmeriaid ar draws y byd erbyn hyn yn fwy ymwybodol o faterion moesegol a'u bod yn barod i gefnogi'r rhai sy'n ymdrechu i fod yn fwy cynaliadwy.

Ein neges i fusnesau a sefydliadau eraill yw bod dangos eich ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy yn gallu:

- *Adeiladu ar enw da cwmni a chynyddu gwerth y brand*
- *Ennill teyrngarwch ymysg cwsmeriaid a gweithwyr*
- *Creu pwynt gwahaniaethu ystyrlon o gymharu gyda chystadleuwyr*
- *Darparu ysgogiad cyffrous ac arloesedd radical*

Dros y tair blynedd diwethaf mae tîm Synnwyr Busnes wedi ymweld â dros 260 o fusnesau ar hyd a lled Cymru. Dyma'r hyn sy'n rhoi mwyaf o bleser i mi fel ymarferydd datblygiad cynaliadwy.

Cefais gyfle i gynnal prawf iechyd cynaliadwyedd gydag ystod eang o fusnesau o rai bach iawn gyda masnachwr unigol i gwmnïau oedd yn cyflogi dros gant o weithwyr.

Mae'n codi'r galon i ymweld â busnesau sydd wrthi'n barod yn gwneud cyfraniad positif i gynaliadwyedd a chyfarfod eraill sy'n frwdfrydig i wneud mwy ond bod angen cymorth a gwybodaeth arnynt.

**Adroddiad arbennig gan DR GWENITH HUGHES Ymarferwr Datblygu Cynaliadwy gydag asiantaeth Synnwyr Busnes**

Yn ogystal â chynnal prawf iechyd, gall Synnwyr Busnes helpu sefydliadau a busnesau bach a mawr i lunio polisi cynaliadwyedd a rhoi cynllun gweithredu ar waith. Gallwn hefyd gynnig hyfforddiant ar ddatblygiad cynaliadwy. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar feddalwedd newydd sydd wedi'i deilwra'n well i fusnesau a sefydliadau.

Mae'r adborth gan fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, hyd yma, wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda 82% o'r rhai gafodd brawf iechyd cynaliadwy yn adnabod o leiaf un pwynt gweithredu newydd nad oeddynt wedi ystyried yn bwysig cynt a 100% yn cyfaddef bod yna lu o bethau y gallant fod yn eu gwneud yn well.


**Mae'n codi'r galon i ymweld â busnesau sy'n gwneud cyfraniad positif i gynaliadwyedd**

Does neb yn rhy fach i dderbyn ein gwasanaeth. Gwlad o fusnesau bach yw Cymru gyda 99% o fusnesau Cymru'n cyflogi llai na 20 o bobl a 98% yn cyflogi llai na 5.

Cyfarwyddyd Dewi Sant oedd i ni wneud 'y pethau bychain' ac rydym yn ceisio cynorthwyo busnesau drwy ddilyn ei gyngor er mwyn ymgyrraedd at y nod o greu Cymru gynaliadwy. ☐

Er i rai ymgyrchwyr ‘Gwyrdd’ amlwg fel George Monbiot a Mark Lynas gael eu hudo i gefnogi mwy o atomfeydd, cuddio’r costau mawr i’r Ddaear a’i phobl mae’r diwydiant niwclear ...

# Cofiwn wir gostau Niwclear wrth ystyried yr Wylfa



LLUN: *www.photoeverywhere.co.uk*

**WRTH i ni gael ein byddaru gan y bloeddi am bwysigrwydd economaidd Atomfa’r Wylfa i drigolion Ynys Môn, ychydig iawn sydd i’w glywed am gost Iwraniwm, sef y ‘powdr melyn’ — fel y cyfeiria rhai pobloedd brodorol ato — sy’n sail i’r diwydiant niwclear.**

Ers i’r Wylfa gael ei chodi ar greigiau gorllewinol yr ynys ym 1971, gwnaed yn siwr gan benaethiaid y diwydiant a’r gwleidyddion sy’n eu cefnogi bod yr Iwraniwm yn cael sleifio’n dawel i’r safle rhag aflonyddu gormod ar gydwybod cymunedau lleol ym Môn ac ardaloedd yr atomfeydd eraill.

Dim ond mudiad lleol ac ymroddedig **Pawb**: **Pobl yn Erbyn Wylfa-B** sydd wedi mynnu codi cwestiynau ar hyd y blynyddoedd ynglyn â moeseg seilio’n moethusrwydd ynni ar niwclear.

Taw pia hi, meddai hyrwyddwyr pwerus rhyngwladol y diwydiant niwclear a’u cefnogwyr. Gwyddant hwy yn iawn bod y gost o godi’r Iwraniwm yn tanseilio’r slogannau twyllodrus sy’n ceisio’n hudo i droi eto at gynhyrchu trydan trwy atomfeydd:

- **Y gost** o ran y distryw achosir i gynefinoedd naturiol canolog o bwysig i barhad y Ddaear fel cartref i ddynolryw.
- **Y gost** trwy achosi allyriadau $CO_2$ wrth i’r Ddaear gael ei rhwygo i gyrraedd at yr Iwraniwm.
- **Y gost** wrth i’r powdr ymbelydrol achosi salwch difrifol fel cancr i weithwyr y diwydiant cloddio – llawer ohonynt yn bobloedd brodorol.
- **Y gost** o ran y chwalfa a achoswyd gan y cloddio i gymunedau brodorol yn yr Unol Daleithiau, yng Nghanada, yn Awstralia a gwledydd eraill yn y gorffennol.
- **Y gost** gan yr ymbelydredd a ryddhawyd yn ddamweiniol ar hyd y blynyddoedd.
- **Y gost** wrth greu plwtoniwm o’r ‘gwastraff’, sef y tanwydd erchyll ar gyfer yr arfau niwclear sydd wedi bygwth parhad dynolryw ers degau o flynyddoedd — a ninnau bellach yn oes teroristiaeth sy’n malio dim am fywydau pobl.
- **Y gost** o orfod delio â’r gwastraff ymbelydrol am ddegau o filoedd o flynyddoedd — os caiff dynoliaeth a gwareiddiad barhau mor hir.

Serch hynny, yng Nghymru, fel mewn gwledydd ledled y byd, mae’r Lobi Niwclear wedi bod yn magu nerth newydd gan seilio’u dadleuon ar honiadau bod Niwclear yn lân ac yn ddi-gost.

Nid dyna fel y mae hi meddai lleisiau bychan ond dewr pobl fel Kevin Buzzacott yn Awstralia, Sun Xiaodi yn Tsieina, a Manuel Pino yn yr Unol Daleithiau.

## GLÂN? CHWALFA CYNEFINOEDD, ARFAU NIWCLEAR, GWASTRAFF?

Mae’r tri wedi cael ei anrhydeddu’n benodol am eu hymgyrchoedd yn erbyn dinistr y cloddfeydd Iwraniwm sydd yn eu gwledydd –

**Kevin Buzzacott** fel un o bobl frodorol Awstralia yn brwydro yn erbyn mwynfeydd Olympic Dam yn ne’r wlad oherwydd eu heffaith ar ddiwylliant ac iechyd ei bobl,

**Sun Xiaodi** am feiddio rhoi pwysau ar Lywodraeth Gomiwnyddol Tsieina am flynyddoedd oherwydd y llygredd ymbelydrol a ddaw o gloddfa Iwraniwm yn Rhanbarth Tibetaidd Gansu, a

**Manuel Pino**, yr ysgolhaig o genedl y Tewa yn Mecsico Newydd sydd wedi ymchwilio i’r niwed a achoswyd gan Iwraniwm i iechyd a diwylliannau pobloedd cynhenid yr Unol Daleithiau – y Navajo yn bennaf yn eu plith.

Yn ystod 30 mlynedd o dŵf cychwynnol y diwydiant niwclear a ddaeth i ben gyda damwain Three Mile Island ym 1979 a Chernobyl ym 1986, bu pobloedd brodorol amrywiol yn diodde’ dan effaith y diwydiant niwclear.

Nawr, gyda’r diwydiant ar i fyny oherwydd galwadau i godi atomfeydd newydd, fel ar safle’r Wylfa, gyda’r honiad eu bod yn ‘Wyrdd’, mae arian mawr yn rhoi pwysau ar genhedloedd lleiafrifol i ildio eto i rym y byd niwclear sydd am ail ddechrau rhwygo’u tiroedd i gyrraedd y powdr melyn.

Os bydd cenhedlaeth newydd o atomfeydd yn cael eu codi, bydd y gost yn fawr – i’r bobloedd bychain y dylwn ni fel Cymry deimlo perthynas arbennig â nhw, i fyd natur, ac i’r Ddaear a dynolryw yn gyfan trwy ryddhau $CO_2$ a nwy methan dinistriol i’r awyr yn ystod y broses gloddio.

Mae’r her yn glir i wleidyddion Môn: er mor ‘anodd’, dylent ddilyn arweiniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy fynnu mai trwy ddulliau adnewyddol y dylid creu ynni’r dyfodol, ac nid trwy ddulliau sy’n achosi cymaint o boen i bobl a Daear, megis y diwydiant niwclear fel a fu. A rhaid i bawb ohonom arbed ynni o ddifrif.

Yn y cyfamser - Wylit, wylit, Wylfa ... Ond cofia agor dy lygaid wrth i’r Iwraniwm gyrraedd Môn a hola gwestiynau amdano! ☐

**DR CHARLOTTE DAVIES YN TYNNU SYLW AT RYBUDD YNGLYN Â CHYFLENWAD BWYD Y BYD YNG NGHYLCHGRAWN Y *'SCIENTIFIC AMERICAN'* ...**



# Prinder bwyd ddim yn broblem i chi? O na? Wel, beth am ddiwedd gwareiddiad?

**FEL mae'r ymateb i'r argyfwng economaidd presennol wedi dangos, un o'r pethau mwyaf annodd i'w rhagweld yw newid sydyn, newid sydd fel petai'n gwrthdroi'r tueddiadau amlwg y mae'r rhan fwyaf o broffwydoliaethau wedi'u seilio arnynt.**

Ond mae gwyddonydd sydd wedi astudio cyflenwadau bwyd ledled y byd ers degawdau yn rhybuddio bod prinder bwyd byd-eang, sy'n ansefydlogi sawl gwlad megis Somalia ac Afghanistan yn barod, yn gallu arwain at gwymp disymwth gwareiddiad.



**Lester Brown: Natur yw'r amserwr — ond dydyn ni ddim yn gallu gweld y cloc**

Wrth ysgrifennu yn *Scientific American* (Mai 2009), mae Lester R. Brown, sylfaenydd y Worldwatch Institute yn y 1970au a sylfaenydd a phennaeth presennol yr Earth Policy Institute, yn ystyried rhesymau am y ffaith bod prisoedd grawn byd-eang wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn ystod gwanwyn a haf 2008.

Mae codiad prisoedd 2008 yn wahanol i'r hyn ddigwyddodd yn y 1970au, mae'n honni. Achos y codiad pryd hynny oedd digwyddiadau penodol, dros dro, fel sychder yn yr Undeb Sofietaidd, methiant y monswn yn yr India a gwres uchel yn yr Unol Daleithiau. Heddiw mae prinder bwyd, sy'n arwain at brisoedd uchel, yn deillio o amgylchiadau mwy sylfaenol a pharhaol. Mae twf poblogaeth y byd, a'r ffaith bod mwy a mwy o bobl eisiau bwyta cig, yn arwain at gynnydd yn y galw am rawn.

Ac ar ben hynny, mae codiad yn y defnydd o rawn ar gyfer tanwydd ceir wedi rhoi pwysau mawr ar y cyflenwad. <u>Mae chwarter cynhaeaf grawn yr UDA eleni yn mynd i wneud tanwydd – er bod y grawn sydd angen i lenwi SUV gyda 25 galwyn o ethanol yn ddigon i fwydo unigolyn am flwyddyn!</u>

Ar yr un pryd mae amgylchiadau – sy'n ymwneud â'n camdriniaeth o'r ddaear – yn golygu bod cynnydd sylweddol yng nghyflenwad grawn y byd yn amhosibl.

Mae Lester Brown yn trafod tri argyfwng sydd yn ein hwynebu: diffyg dŵr croyw; colli haen uchaf, gynhyrchiol, pridd; a chodi tymheredd ac effeithiau eraill o newid hinsawdd.

Mae 70% o'n defnydd o ddŵr croyw ar gyfer ffermio, ac mae gor-ddefnyddio a gwastraffu dŵr yn golygu bod lefel y dŵr mewn cronfeydd tanddaearol yn yr India, Tsieina a'r UDA yn cwympo'n gyflymach nag mae glaw yn gallu eu hail-lenwi. Ac mae Tsieina wedi dechrau tynnu dŵr o hen gronfeydd dwfn sy ddim yn gallu cael eu hail-lenwi.

Ar yr un pryd, mae haen uchaf y pridd ar ryw draean o diroedd y byd sy'n cael eu haredig yn erydu'n gyflymach nag mae pridd newydd yn gallu ffurfio.

*Mae codiad tymheredd o ganlyniad i gynnydd allyriadau $CO_2$ hefyd yn arwain at gwymp yn y cyflenwad bwyd. Am bob codiad o $1^{\circ}C$ uwchben y cyfartaledd, mae'r cynhaeaf o wenith, reis ac india-corn yn cwympo o 10 y cant.*

Oes unrhyw ffordd allan o'r cawl yma? Oes, yn ôl Lester Brown. Ond rhaid meddwl yn greadigol; mae angen 'symud aruthrol i ffwrdd o fusnes-fel-arfer – beth rydyn ni yn yr Earth Policy Institute yn galw Cynllun A – tuag at Gynllun B i achub gwareiddiad'.

*Rydyn ni'n gwybod y mesuriadau i'w cymryd, ond mae rhaid gweithredu'n gyflym, meddai:*

'Mae pob dydd yn cyfrif. Yn anffodus, dydyn ni ddim yn gwybod am ba mor hir rydyn ni'n gallu goleuo'n dinasoedd gyda glo, er enghraifft, cyn iddi fod yn rhy hwyr i achub gorchudd iâ Yr Ynys Las.

<u>'Natur sy'n gosod y llinellau terfyn; natur yw'r amserwr. Ond dydyn ni fel dynolryw ddim yn gallu gweld y cloc.'</u> ☐

## 'Ond lle bo'r arad ar y ffridd, Yn <u>rhwygo'r</u> Gwanwyn pêr o'r pridd'

**DAU linell o un o gerddi enwocaf R.Williams Parry sy'n gwrthgyferbynnu hagrwch y Cymoedd glofaol gyda chefn gwlad 'heb arni staen na chraith' - heblaw am yr aredig. Ond, oedd y bardd yn iawn i weld ffrwythlondeb y Gwanwyn fel canlyniad i drais hanfodol yn erbyn y pridd, sef y broses aredig (ac, am hynny, yr arllwys cemegau)? Medd eraill, yn wahanol iawn, bod y Ddaear yn cynnig y Gwanwyn heb angen trais, wrth ofalu amdani.**

**Medd Lester Brown: 'Mae aredig cyfyngedig — gan osgoi troi'r pridd a gadael gweddill cnydau ar y caeau — ymysg y mesurau cadwraeth pridd mwya' pwysig.'**

**'Peidiwch a phalu!' medd *Permaddiwylliant* : 'Nid dim ond casgliad o hen ddail a chreigiau wedi'u malu yw pridd. Mae'n fydysawd rhyfeddol o ffwngau, meicrobau, mwyaid, a mân fflora a ffawna — yn berwi a bywyd.' A'u colli wnawn trwy eu <u>rhwygo</u>.**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## Sul yr Amgylchedd

DYDD Sul, Mehefin 7, yw Sul yr Amgylchedd. Oes gweithgarwch i nodi hynny yn eich capel neu'ch eglwys chi? Cofiwn, wrth gwrs, fod y Sul yn ddydd i bawb a bod gan bawb gyfle i ddathlu yn y ffordd sy'n unol â'u credoau. Dim esgus!

## Sgwrs Trefynwy

BYDD Mark Dowd yn rhoi sgwrs am **'Newid Hinsawdd: Rhy hwyr i weithredu, neu reswm i obeithio?'** yng nghapel y Bedyddwyr, Monk Street, Trefynwy, am 7.30yh ar nos Fercher, Mehefin 3. Bydd cyfle am drafodaeth, a diodydd a lluniaeth ysgafn, wedi'r sgwrs.

► Mwy o wybodaeth gan Ali Gree, ffôn 01500 715538 neu alig9@btinternet.com

## Hyfforddiant CDA

CYNHELIR cwrs deuddydd **Hyfforddiant ar gyfer Trawsnewid** yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen yng Nghorris ger Machynlleth ar Sadwrn a Sul, Mehefin 6 a 7. Mae'r cwrs yn arbennig ar gyfer pobl sy'n gobeithio dechrau prosiectau Trefi Trawsnewid yn eu hardaloedd. Mae'r sesiynnau'n llawn bywyd, yn ysbrydoli pawb sy'n cymryd rhan, ac yn hwyl. Y gost yw £100 ond mae rhywfaint o gymorth ariannol ar gael.

► Archebu:transitiondyfi@yahoo.co.uk.


## HYSBYSEBION Y PAPUR GWYRDD

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@ btinternet.com**

## GWEFAN

**Croeso i chi ymweld â'n Gwefan sydd â phyrth i'r Byd Gwyrdd — sef: www.ypapurgwyrdd.com**


## Diflaniad pysgod?

DANGOSIR ffilm arbennig i nodi Dydd y Cefnforoedd yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth ar nos Lun, Mehefin 8. Mae ffilm newydd sbon **End of the Line** yn datgelu canlyniadau difrifol gor-bysgota led-led y byd. Yn gefndir i'r cyfan, mae'r ffilm bwerus yn ystyried y posibilrwydd y bydd pysgod yn diflannu'n llwyr oherwydd ein methiant i reoli'r diwydiant pysgota. Byddai hyn yn achosi newyn torfol.

► Holi:www.endoftheline.com

## Hwyl Abertawe

NOSON o fwynhad ac ysbrydoliaeth gydag arddangosfa ac ocsiwn yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe ar nos Wener, Mehefin 12. Mae'r arddangosfa'n canolbwyntio ar byllau dŵr yng nghreigiau arfordirol a bydd yr ocsiwn yn cynnal gweithgarwch y Ganolfan. Gwybodaeth o:

► www.environmentcentre.org.

## Gŵyl Werdd Aber

BYDD 5 dydd o weithgareddau amrywiol a hwyliog yn ystod Gŵyl Werdd Aberystwyth rhwng Mehefin 10 ac 14. Mae'r ŵyl yn tynnu ynghyd popeth sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn gynaliadwy yn Aberystwyth a'r ardal. Fe'i cynhelir yn y Bandstand ar *prom* Aber gan agor am 10 y bore a bydd y cyfan yn rhad ac am ddim.

Bydd digwyddiadau ar gyfer plant, gweithdai celf, gorymdaith Band Samba a Draig Werdd, arddangosfeydd, cwis, taith gerdded ar y traeth, llwyfan Bandiau Gwyrdd yn gweithio gydag ynni o'r haul, a llawer mwy. Rhoddir thema i bob diwrnod gan gynnwys *Ein Cynefin Lleol*, *Masnach Deg* a *Chynnyrch Lleol*.

## Antur Llandeilo

MAE Grŵp Calon ac Enaid cangen Trefi Trawsnewid Llandeilo yn gwahodd pobl i ymuno mewn Gêm Antur yn yr awyr iach ar nos Wener, Mehefin 26. Mae'r hwyl yn dechrau am 7.30yh yn ysgubor Sue Beaver ger Llansadwrn.

► Holi Sue: ffôn 01550 777402.

## Cydnabod Bro Gwaun

LLONGYFARCHIADAU i bobl ardal Abergwaun wrth i Drawsnewid Bro Gwaun gael ei dderbyn yn swyddogol fel rhan o fudiad Trefi Trawsnewid.

## Wythnos y Beic

CYFLE arall am weithgarwch cymunedol — y tro hwn ym myd y beiciau wrth ddathlu Wythnos y Beic rhwng Mehefin 13 a 21.

## Cittaslow

CANGEN Yr Wyddgrug o Cittaslow — mudiad y bwyd araf — yn cwrdd yn y caffi coffi, Canolfan Daniel Owen, am 7yh ar 21 Gorffennaf.

► Ffôn: 01352 754551

## Gwersyll Hinsawdd

MAE gwahoddiad i bawb ymuno â Gwersyll Hinsawdd cyntaf Cymru yn ardal Merthyr rhwng Awst 13—16. Y nôd yw byw'n gynaliadwy, dysgu am Gynhesu Byd-eang, gweithredu'n heddychlon yn erbyn achosion Newid Hinsawdd, ac adeiladu'r mudiad yng Nghymru. Mwy o wybodaeth:

► www.climatechangecampcymru.org

## Ymuno ag ymgyrch y Ddaear

**Mae myrdd o fudiadau yn ceisio achub ein planed. Byddai'r isod yn falch o'ch cymorth:**

**Cyfeillion y Ddaear Cymru**
33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd
CF10 1BY
Ffôn: 02920 229577
Gwefan: www.foe.co.uk/cymru

**Greenpeace**
Ffôn: 020 7865 8100
Gwefan: www.greenpeace.org

**Mae gweithgarwch Trefi Trawsnewid yn yr ardaloedd canlynol**
Llandeilo
Llanbedr Pont Steffan
Bro Gwaun
Aberystwyth
Cwm Gwendraeth
Bro Ddyfi … a mwy, siwr o fod!

*Beth am ymuno â'r gweithgarwch — a hybu'r Gymraeg yn y broses?*

**► Croesawn erthyglau, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd. **Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffoniwch 01792 798162. Llythyrwch at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

# Cynhadledd arloesol yn codi gobeithion

**GYDA ffigyrau pwysig o'r mudiad amgylcheddol yn annerch, profodd Cynhadledd Gwanwyn Gwyrdd arloesol Plaid Cymru yn llwyddiant digamsyniol yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Shir Gâr gan godi gobeithion bod argyfwng y Ddaear yn codi i'r brig fel pwnc gwleidyddol.**

Meddai Myfanwy Davies, Cyfarfwyddwr Addysg Wleidyddol y Blaid, "Economi newydd fydd yn bodoli wrth i ni ddod allan o'r crebachiad hwn — economi fydd yn rhoi pobl uwchlaw elw ac a fydd yn gynaliadwy ac yn lleol.

"Pwrpas Cynhadledd Gwanwyn Gwyrdd oedd trafod sut rydyn ni'n gallu gweithio gydag arbenigwyr, amgylcheddwyr a diwydiant i greu'r newid hwnnw."

Roedd tua 120 o bobl yn bresennol yn y gynhadledd . Y prif thema oedd sut i hybu gweithgarwch cymunedol i greu economi gynaliadwy.

Ymysg y siaradwyr gwadd oedd Patrick Holden, Cyfarwyddwr Cymdeithas y Pridd, Peter Harper, pennaeth ymchwil Canolfan y Dechnoleg Amgen, Jake Hollyfield, Cyfarwyddwr Canolfan ECO Gorllewin Cymru, Gordon James, Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, Helen Northmore, Pennaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru, Llywelyn Rhys, Pennaeth Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain / Cymru, Brian Walters, arweinydd yr FUW, a Dai Davies, arweinydd NFU Cymru.

Am fwy o wybodaeth am y trafodaethau, cysylltwch â Lowri Jackson, Swyddog Ymchwil a Pholisi Plaid Cymru: lowri.jackson@plaidcymru.org.



Aelodau, swyddogion a gwahoddedigion yng nghynhadledd Gwanwyn Gwyrdd y Blaid

Mae modd claddu llawer o broblemau wrth balu yn yr ardd ...

Anhysbys

# Rhown glod i ddanadl poethion ...



NID cylchgrawn naturiaethol na garddwriaethol ydy'r **Papur Gwyrdd**, fel bydd arbenigwyr wedi sylwi ers tro … ond mentr gyflwyno hanesyn o'n gardd syml yn Nhreforys fel ôl-nodyn i'r rhifyn hwn.

Nid yn aml y gwelwch lun o ddanadl poethion gydag ymyl celfydd o'u cwmpas, fel sydd ar y dde. Ond mae rhain yn haeddu hynny, fel cewch glywed.

Dro yn ôl, wrth geisio rhoi 'trefn' ar yr ardd, fe lwyddo bechu yn erbyn y danadl poethion oedd gennym. Ar y pryd, doedd dim llawer o ddagrau ar eu hôl.

Ond, sylwom yn ystod Wythnos Genedlaethol Danadl Poethion ym mis Mai (oedd, wir!) ar ragoriaethau'r danadl am amryw o resymau gan gynnwys hybu bywyd gwyllt. A phenderfynon ni geisio estyn croeso o'r newydd.

Heb eisiau dwyn o gefn gwlad, ac wedi sôn wrth gyfaill o Ferthyr Tudful sydd a'i wreiddiau (!) yn Sir Aberteifi, o fewn y dim dyma ni'n derbyn cyflenwad ffres o Langeitho. A dyna'r tyfiant newydd ohonynt yn y llun — wedi cydio'n hapus ym mhridd Cwm Tawe ac eisoes yn denu pryfed. Diolch o galon i bawb a fu'n gweini!



Mae'r danadl wedi ymuno â chlystrau o Babiau Cymreig (ar y dde) sy'n britho ochr ein tŷ rhwng y ceir a'r wal — y lle mwya' anghroesawgar posib, ond yn ddileit i ni!

I ni, mae'r danadl a'r pabiau yn symbolau bychain o'r cydfyw rhwng byd natur a'r bobl led-led y byd sy'n caru'r Ddaear. Dymunwn i Lywodraethau ddilyn eu hesiampl.

**Hwyl am y tro,**
**Hywel a Charlotte Davies**

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## ... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

